

Y SAFONAU GOFYNNOL CENEDLAETHOL

AR GYFER

CARTREFI GOFAL I BOBL HŶN

(DIWYGIEDIG – MAWRTH 2004)

Datganiad o'r safonau gofynnol cenedlaethol sy'n gymwys i gartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn ac a wnaed gan Weinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru o dan y pwerau a roddwyd o dan adran 23(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cynulliad Cymru

3 Mawrth 2004

CYNNWYS

Cyflwyniad

ADRAN UN: DEWIS CARTREF (SAFONAU 1 – 5)

- Safon 1: Gwybodaeth
- Safon 2: Asesu Anghenion
- Safon 3: Y Gallu i Ddiwallu Anghenion
- Safon 4: Ymweliadau Prawf
- Safon 5: Y Contract

ADRAN DAU: CYNLLUNIO AR GYFER ANGHENION A DEWISIADAU UNIGOL (SAFONAU 6 – 7)

- Safon 6: Cynllun Defnyddiwr Gwasanaeth
- Safon 7: Cadw Cofnodion

ADRAN TRI: ANSAWDD BYWYD (SAFONAU 8 – 12)

- Safon 8: Annibyniaeth a Dewis
- Safon 9: Cysylltiadau a Chyfleoedd Cymdeithasol
- Safon 10: Cysylltiadau â'r Gymuned
- Safon 11: Hawliau
- Safon 12: Cyfrinachedd

ADRAN PEDWAR: ANSAWDD GOFAL A THRINIAETH (SAFONAU 13 – 19)

- Safon 13: Gofal Canolradd
- Safon 14: Gofal Personol – Preifatrwydd ac Urddas
- Safon 15: Gofal Iechyd
- Safon 16: Prydau ac Amserau Bwyd
- Safon 17: Meddyginiaeth
- Safon 18: Arferion Gweithio Diogel
- Safon 19: Marw a Marwolaeth

ADRAN PUMP: STAFFIO (SAFONAU 20 – 25)

- Safon 20: Lefelau Staffio
- Safon 21: Cymwysterau'r Staff
- Safon 22: Recriwtio
- Safon 23: Hyfforddi'r Staff
- Safon 24: Goruchwyllo'r Staff
- Safon 25: Gwirfoddolwyr

ADRAN CHWECH: CYNNAL A RHEOLI'R CARTREF (SAFONAU 26 – 30)

- Safon 26: Y Rheolwr Cofrestredig
- Safon 27: Ethos
- Safon 28: Sicrwydd Ansawdd
- Safon 29: Gweithdrefnau Ariannol
- Safon 30: Arian y Defnyddwyr Gwasanaeth

**ADRAN SAITH: PRYDERON, CWYNION AC AMDDIFFYNIAD
(SAFONAU 31 – 32)**

Safon 31: Cŵynion

Safon 32: Amddiffyniad

ADRAN WYTH: YR AMGYLCHEDD FFISEGOL (SAFONAU 33 – 40)

Safon 33: Y Safle

Safon 34: Cyfleusterau a Rennir

Safon 35: Tai Bach a Chyfleusterau Ymolchi

Safon 36: Addasiadau ac Offer

Safon 37: Llety Unigol – Gofynion Lle

Safon 38: Llety Unigol – Celfi a Ffitiadau

Safon 39: Gwres, Golau a Dŵr

Safon 40: Hylendid a Rheoli Heintiadau

CYFLWYNIAD

Nodau

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o dan adran 23 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (DSG). Bydd y safonau hyn yn cael eu defnyddio gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru'r Cynulliad (ASGC) wrth benderfynu a yw'r cartrefi gofal hyn yn darparu gofal digonol sy'n bodloni gofynion y personau sy'n byw ynddynt ac fel arall yn unol â gofynion rheoleiddiol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu'r safonau'n gyson, a gall fod y bydd yn cyhoeddi safonau wedi'u diwygio os yw'n briodol.

2. Mae'r gofynion rheoleiddio wedi'u nodi yn Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002 ("y Rheoliadau") ac o dan DSG. Rhaid cyfiawnhau penderfyniadau ASGC drwy gyfeirio at y gofynion rheoleiddiol hyn; a phan y mae'n gwneud penderfyniadau rhaid i ASGC gymryd y safonau hyn i ystyriaeth. Hefyd, rhaid i asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r cynllun rheoleiddiol, megis y Tribiwnlys perthnasol, a'r Llysoedd, gymryd y safonau i ystyriaeth pan byddant yn gwneud penderfyniadau o dan DSG. Er enghraifft, mae Rheoliad 16(2)(i) y Rheoliadau yn datgan "O roi sylw i faint y cartref gofal ac i nifer ac anghenion y defnyddwyr gwasanaeth, rhaid i'r person cofrestredig ... (ff) ddarparu, mewn symiau digonol, fwyd addas, iachus a maethlon ...". Pan fydd yn ystyried a yw'r person cofrestredig wedi bodloni'r gofyniad hwn, bydd ASGC yn dwyn i ystyriaeth safon 16.2 sy'n rhan o safon 16 sy'n ymwneud â phrydau ac amserau bwyd. Mae'r safon hon yn datgan y dylid cynnig i ddefnyddwyr y gwasanaeth dri phryd llawn y dydd (a rhaid i o leiaf ddau ohonynt fod yn brydiau sydd wedi'u coginio). Er enghraifft, pe bai ond un pryd wedi'i goginio yn cael ei gynnig, gall ASGC ddod i'r casgliad nad yw'r person cofrestredig yn bodloni gofynion rheoliad 16(2)(ff) a gall ddod ag achos gorfodi priodol.

3. Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ofynion craidd, sy'n gymwys i bob sefydliad sy'n darparu llety ynghyd â gofal personol neu ofal nyrsio i bobl hŷn, nad yw wedi'i eithrio gan DSG na chan y rheoliadau. Er bod cwrpas y Safonau hyn yn eang, maent yn cydnabod anghenion unigryw a chymhleth unigolion, a'r wybodaeth, y medrau a'r cyfleusterau penodol ychwanegol y mae eu hangen er mwyn i gartref gofal gyflwyno gwasanaeth cynhwysfawr sydd wedi'i deilwra ar gyfer unigolion. Mae'r Safonau yn gymwys i, ar y cyd â'r rheoliadau, i gartrefi gofal a oedd wedi'u cofrestru fel cartrefi gofal preswyl neu gartrefi nyrsio o dan Ddeddf Cartrefi Cofrestredig 1984, ac i bob cyfleuster newydd y mae angen eu cofrestru yn gartrefi gofal. Maent yn gymwys hefyd i gartrefi gofal awdurdodau lleol ac i sefydliadau eraill a oedd wedi'u heithrio o dan Ddeddf Cartrefi Cofrestredig 1984, er enghraifft Cartrefi Siarter.

Y Cyd-destun Rheoleiddiol

4. Cyhoeddir y safonau hyn yn unol ag adran 23 o'r DSG gan Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddant yn gymwys o 22 Ebrill 2002, fel y mae darpariaethau'r Rheoliadau yn gymwys, oni nodir i'r gwrthwyneb.

5. Mae'r DSG yn diwygio'r system rheoleiddiol ar gyfer gwasanaethau gofal yng Nghymru a Lloegr. Mae'n disodli Deddf Cartrefi Cofrestredig 1984, a rheoliadau cysylltiedig, sydd i'w diddymu, yn ddarostyngedig i drefniadau trosiannol, o 1 Ebrill 2002 ymlaen. Mae'r DSG yn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel awdurdod cofrestru gofal cymdeithasol a gofal iechyd annibynnol dros Gymru. Am y tro, bydd y

swyddogaethau hyn cael eu cyflawni drwy is-adran y Cynulliad a enwir Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC). Bydd y ASGC yn cymryd cyfrifoldeb dros gofrestru gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal iechyd a gofrestrwyd gynt gan gynghorau lleol ac awdurdodau iechyd. Yn ychwanegol, mae'r ASGC yn darparu bod cwrmpas rheoleiddio yn cael ei ehangu i wasanaethau eraill nad ydynt wedi'u cofrestru ar hyn o bryd, megis asiantaethau gofal cartref, asiantaethau maethu a chanolfannau teuluol preswyl.

6. Mae'r DSG yn rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â Chymru ystod eang o bwerau i wneud rheoliadau sy'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rheolaeth, staff, safleoedd a dull cynnal sefydliadau ac asiantaethau cymdeithasol a rhai gofal iechyd. Mae adran 23 yn rhoi pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyhoeddi datganiadau ynghylch Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n gymwys i gartrefi gofal, safonau y bydd yn rhaid i'r ASGC ac eraill ddwyn i ystyriaeth pan fyddant yn gwneud penderfyniadau (fel a ddisgrifiwyd ym mharagraff 2). Bydd y safonau hyn, pan byddant yn gymwys, yn aml yn sail i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan ASGC mewn perthynas â cheisiadau i gofrestru cartrefi, gosod amodau i gofrestru cartrefi, amrywio unrhyw amodau a gorfodi cydymffurfio â'r DSG, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn â diddymu cofrestru neu erlyn.

7. Bydd ASGC yn ystyried felly i ba raddau y mae'r gwasanaeth rheoleiddiedig yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol wrth benderfynu, at ddibenion ei swyddogaethau i gofrestru, a yw darpariaethau'r rheoliadau wedi eu torri. Gellir apelio at dribiwnlys annibynnol yn erbyn unrhyw benderfyniad a wneir gan yr ASGC wrth iddi gyflawni ei swyddogaethau cofrestru.

Strwythur ac ymagwedd

8. Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn yn canolbwyntio ar ganlyniadau cyraeddadwy i'r defnyddwyr gwasanaeth – hynny yw, effaith cyfleusterau a gwasanaethau'r cartref ar yr unigolyn. Mae'r safonau wedi'u grwpio yn ôl yr wyth adran ganlynol sy'n tanlinellu agweddau ar fywydau unigolion a nodwyd yn ystod yr ymgynghori â'r budd-ddeiliaid fel y rhai pwysicaf i'r defnyddwyr gwasanaeth:

- dewis gwasanaeth
- cynllunio ar gyfer anghenion a dewisiadau unigol
- ansawdd bywyd
- ansawdd gofal a thriniaeth
- staffio
- dull cynnal a rheoli'r gwasanaeth
- pryderon, cwyno ac amddiffyn
- yr amgylchedd ffisegol

Mae pob safon yn ymwneud ag agwedd benodol o redeg cartrefi gofal ac o flaen pob safon mae datganiad ynghylch y canlyniad y bwriada'r cartref gofal ei sicrhau ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r rheoliadau a'r safonau wedi'u dylunio i hyrwyddo cyrraedd y canlyniad hwnnw.

Mae'r "safon" sy'n ymwneud ag agwedd benodol o redeg cartrefi gofal mewn gwirionedd yn cynnwys set o safonau sef y paragraffau sydd wedi'u rhifo o dan y blwch

'canlyniad'. At ddibenion DSG, dylid trin pob un o'r paragraffau sydd wedi'u rhifo fel safon ar wahân o dan adran 23 DSG.

Mewn rhai achosion, er mwyn eglurder, mae'r safonau'n ailadrodd gofynion y rheoliadau. Nid yw hyn yn golygu bod y gofyniadau rheoleiddiol penodol wedi cael eu newid – mae'n rhaid i'r person cofrestredig fodloni holl ddarpariaethau'r rheoliadau.

9. Er bod y Safonau yn rhai ansoddol – maent yn darparu cyfrwng i bwysu a mesur ansawdd bywyd y defnyddwyr gwasanaeth – maent yn fesuradwy hefyd. Bydd yr Arolygiaeth yn edrych am dystiolaeth fod y gofynion yn cael eu bodloni a bod y defnyddwyr gwasanaeth yn mwynhau bywyd o ansawdd dda drwy wneud y canlynol:

- trafod gyda'r defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u cyfeillion, y staff a'r rheolwyr, ac eraill;
- arsylwi ar fywyd pob dydd yn y cartref; a
- craffu ar bolisiâu, gweithdrefnau a chofnodion ysgrifenedig.

Bydd cynnwys aseswyr lleyg mewn archwiliadau yn helpu i sicrhau ffocws ar ganlyniadau ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth ac ar ansawdd eu bywydau.

10. Cafodd y safonau yn y tudalennau canlynol hyn eu paratoi mewn ymateb i ymgynghori eang ac y maent yn realistig, yn gymesur, yn deg ac yn dryloyw. Maent yn darparu safonau gofynnol, yn sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu hamddiffyn ac yn diogelu iechyd, lles ac ansawdd bywyd y preswylwyr ac yn eu hyrwyddo.

11. Mae rhai safonau yn y Fersiwn Ddiwygiedig hon o'r safonau wedi'u llacio o safbwynt cartrefi gofal bychain (h.y. cartrefi â thri phreswylwr neu lai). Penderfynwyd ar eu llacio wedi ymgynghori â'r sector a charfanau perthnasol eraill.

DEHONGLI

Yn y datganiad hwn –

Ystyr “DSG” yw Deddf Safonau Gofal 2000;

Ystyr “ASGC” yw Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru;

ystyr “person cofrestredig” yw darparydd cofrestredig neu reolwr cofrestredig;

ystyr “y rheolwr” yw

(i) os nad yw’r person sy’n rhedeg y cartref hefyd yn rheolwr, y rheolwr cofrestredig;

(ii) os yw’r person sy’n rhedeg y cartref hefyd yn rheolwr, y person hwnnw.

ystyr “y Rheoliadau” yw Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002; oni nodir fel arall, mae cyfeiriad at reoliad yn gyfeiriad at reoliad yn Rheoliadau Catrefi Gofal (Cymru) 2002;

ADRAN UN: DEWIS CARTREF

SAFON 1: GWYBODAETH

Y CANLYNIAD:

Mae gan y darpar ddefnyddwyr gwasanaeth yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud dewis gwybodus ynglŷn â lle i fyw.

Y SAFON:

1.1 Mae'r person cofrestredig, os gofynnir iddo wneud hynny, yn cynhyrchu datganiad cyfoes o ddiben y cartref sy'n nodi ei nodau, ei amcanion, ei athroniaeth gofal, ei wasanaethau a'i gyfleusterau, ei thelerau ac amodau; ac yn cynhyrchu arweiniad i'r cartref ar gyfer y darpar breswylwyr a phreswylwyr presennol.

1.2 Mae arweiniad y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei ysgrifennu mewn iaith blaen a threfnir iddo fod ar gael ar ffurf sy'n addas ar gyfer y preswilydd arfaethedig.

1.3 Mae'r arweiniad y defnyddiwr gwasanaeth yn cynnwys:

- disgrifiad byr o'r llety a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu;
- cymwysterau a phrofiad perthnasol y darpariwyd cofrestredig, y rheolwr a'r staff;
- y nifer o leoedd sy'n cael eu darparu ac unrhyw anghenion a diddordebau arbennig y darperir ar eu cyfer;
- datganiad ynghylch p'un ai y gall y defnyddwyr gwasanaeth ddisgwyl dewis o ran gender y rhai sy'n darparu eu gofal personol ai peidio;
- polisi'r cartref ar anifeiliaid anwes;
- copi, neu grynoded o adroddiad diweddaraf yr arolygwyr;
- copi o'r weithdrefn gŵynion;
- crynodeb o adroddiad arolwg ansawdd gofal mwyaf diweddar y cartref sy'n nodi, lle bo'n ymarferol, barn defnyddwyr gwasanaeth ar y cartref.

1.4 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr yn cael gwybodaeth ysgrifenedig mewn iaith a fformat perthnasol ynghylch sut i gysylltu â swyddfa leol yr ASGC a'r awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd lleol.

SAFON 2: ASESU ANGHENION

Y CANLYNIAD:

Nid oes unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth yn symud i mewn i'r cartref heb fod ei anghenion yn cael eu hasesu a'i fod wedi cael sicrwydd y bydd y rhain yn cael eu bodloni.

Y SAFON:

2.1 Dim ond ar sail asesiad llawn gan bobl sydd wedi'u hyfforddi i wneud hynny y mae defnyddwyr gwasanaeth newydd yn cael eu derbyn, a hwnnw'n asesiad y mae'r

darpar ddefnyddiwr gwasanaeth, ei gynrychiolwyr (os oes rhai), a phroffesiynolion perthnasol wedi chwarae rhan ynddo.

2.2 Yn achos unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio drwy'r trefniadau rheoli gofal, mae'r rheolwr cofrestredig yn cael gafael ar gynodeb o'r asesiad rheoli gofal (iechyd a gwasanaethau cymdeithasol) a chopi o'r cynllun gofal a gynhyrchwyd at ddibenion rheoli gofal.

2.3 Yn achos unigolion sy'n ariannu eu hunain ac sydd heb asesiad rheoli gofal neu gynllun gofal, mae'r person cofrestredig yn cyflawni asesiad o'r anghenion sy'n cynnwys y materion canlynol, neu'n peri bod y fath asesiad yn cael ei gyflawni:

- gofal personol a lles corfforol;
- deiet a phwysau, gan gynnwys dewisiadau deietegol;
- golwg, clyw a chyfathrebu;
- iechyd geneuol;
- gofal traed;
- symudedd a deheurwydd;
- hanes cwmpiadau;
- cynhwyster;
- defnyddio meddyginiaeth;
- cyflwr meddwl a gwybyddiaeth;
- diddordebau cymdeithasol, hobiau, anghenion crefyddol a diwylliannol;
- diogelwch personol a risg;
- ymglymiant y gofalwr a'r teulu a chysylltiadau/perthnasoedd cymdeithasol eraill.

2.4 Mae gan bob defnyddiwr gwasanaeth gynllun gofal ar gyfer bywyd pob dydd, a chanlyniadau tymor-hwy, wedi'u seilio ar yr Asesiad Rheoli Gofal a'r Cynllun Gofal neu ar asesiad y cartref ei hun o'r anghenion (gweler Safon 6, Y Cynllun Defnyddiwr Gwasanaeth).

2.5 Mae'r mewnbwn gan nyrsys cofrestredig y mae ei angen ar ddefnyddwyr gwasanaeth mewn cartrefi sy'n darparu gofal nyrsio yn cael ei benderfynu gan nyrsys cofrestredig sy'n defnyddio cyfrwng asesu cydnabyddedig.

SAFON 3: Y GALLU I DDIWALLU ANGHENION

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr yn gwybod y bydd y cartref y maent yn mynd iddo yn diwallu eu hanghenion.

Y SAFON:

3.1 Mae'r person cofrestredig yn medru dangos bod y cartref yn gallu diwallu anghenion asesedig, gan gynnwys anghenion arbenigol, yr unigolion sy'n cael eu derbyn i'r cartref.

3.2 Mae'n amlwg bod yr holl wasanaethau arbenigol sy'n cael eu cynnig (e.e. gwasanaethau i bobl â gorffwylltra neu namau gwybyddol eraill, namau ar eu synhwyrau, anabledau corfforol, anabledau dysgu, gofal canolraddol neu ofal

seibiant) wedi'u seilio ar arferion da cyfredol ac yn adlewyrchu canllawiau arbenigol a chlinigol perthnasol.

3.3 Darperir ar gyfer anghenion a dewisiadau cymunedau ethnig lleiafrifol penodol, grwpiau cymdeithasol neu ddiwylliannol neu grefyddol, ac mae'r anghenion a'r dewisiadau hyn yn cael eu deall a'u bodloni.

3.4 Mae gan y staff, yn unigolion ac ar y cyd, y medrau a'r profiad i gyflwyno'r gwasanaethau a'r gofal y mae'r cartref yn cynnig eu darparu.

SAFON 4: YMWELIADAU PRAWF

Y CANLYNIAD:

Mae gan ddarpar ddefnyddwyr gwasanaeth a'u perthnasau a'u cyfeillion gyfle i ymweld â'r cartref ac asesu ei ansawdd, ei gyfleusterau a'i addasrwydd.

Y SAFON:

4.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod darpar ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu gwahodd i ymweld â'r cartref ac i symud iddo ar sail prawf, cyn iddynt hwy a/neu eu cynrychiolwyr wneud penderfyniad i aros; osgoir derbyniadau nad ydynt wedi'u cynllunio pa bryd bynnag y mae'n bosibl.

4.2 Mae'r darpar ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu gwahodd i ymweld â'r cartref ac yn cael cynnig lle ar sail prawf, cyn gwneud ymrwymiad hir-dymor.

4.3 Mae'r darpar ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael cyfle i gyfarfod â'r staff yng nghartrefi y darpar ddefnyddwyr eu hunain neu yn y man lle maent yn byw ar y pryd os yw'n wahanol.

4.4 Pan fydd derbyniad yn cael ei wneud ar frys, mae'r person cofrestredig yn ymrwmo i hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth o fewn 48 awr ynghylch prif agweddau, rheolau ac arferion allweddol y gwasanaeth, ac i fodloni'r holl feini prawf derbyn eraill sydd wedi'u nodi o fewn pum diwrnod gwaith.

SAFON 5: Y CONTRACT

Y CANLYNIAD:

Mae gan bob defnyddiwr gwasanaeth contract ysgrifenedig neu ddatganiad o'r telerau a'r amodau gyda'r cartref.

Y SAFON:

5.1 Mae pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael datganiad o'r telerau a'r amodau wrth symud i'r cartref (neu contract os ydynt yn prynu ei gofal yn breifat).

5.2 Mae'r datganiad o'r telerau a'r amodau yn nodi'r canlynol:

- yr ystafelloedd sydd i'w meddiannu;
- y gofal a'r gwasanaethau cyffredinol (gan gynnwys bwyd) y mae'r ffi yn eu cynnwys;
- y ffioedd sy'n daladwy a chan bwy (y defnyddiwr gwasanaeth, yr awdurdod lleol neu'r awdurdod iechyd, perthynas neu rywun arall);
- y gwasanaethau ychwanegol (gan gynnwys bwyd ac offer) sy'n rhaid talu amdanynt yn ychwanegol at y ffioedd;
- hawliau a rhwymedigaethau y defnyddiwr gwasanaeth a phwy sy'n atebol os yw'r contract yn cael ei dorri;
- telerau ac amodau meddiannu, gan gynnwys cyfnod o rybudd (e.e. gofal canolradd/seibiant byr-dymor/hir-dymor).

5.3 Mae'r contract yn cael ei lofnodi gan y defnyddiwr gwasanaeth (neu gynrychiolydd a enwir, os nad yw'r defnyddiwr yn gallu gwneud hynny) a'r person cofrestredig.

ADRAN DAU: CYNLLUNIO AR GYFER ANGHENION A DEWISIADAU UNIGOL

SAFON 6: CYNLLUN DEFNYDDIWR GWASANAETH

Y CANLYNIAD:

Mae anghenion iechyd, anghenion personol ac anghenion gofal cymdeithasol pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu nodi mewn cynllun gofal unigol.

Y SAFON:

6.1 Mae cynllun gofal ar gyfer defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gynhyrchu o asesiad cynhwysfawr ac yn cael ei lunio gyda phob defnyddiwr gwasanaeth; hwn sy'n darparu'r sail ar gyfer y gofal sydd i'w gyflwyno.

6.2 Mae cynllun y defnyddiwr gwasanaeth yn nodi'n fanwl y camau y mae angen i'r staff gofal eu cymryd i sicrhau bod pob agwedd ar anghenion iechyd, anghenion personol ac anghenion gofal cymdeithasol y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei chymryd i ystyriaeth.

6.3 Mae'r cynllun defnyddiwr gwasanaeth yn bodloni'r canllawiau clinigol perthnasol sy'n cael eu cynhyrchu gan y cyrff proffesiynol perthnasol sy'n ymwneud â gofalu am bobl hŷn, ac mae'n cynnwys asesiad o'r risgiau, gan roi sylw penodol i atal pobl rhag cwmpo.

6.4 Mae cynllun y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei adolygu gan y staff gofal yn y cartref o leiaf unwaith y mis, ac yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu anghenion sy'n newid ac amcanion cyfredol ar gyfer gofal iechyd a gofal personol ac yn cael ei weithredu.

6.5 Mae'r cynllun yn cael ei lunio gyda chyfranogiad y defnyddiwr gwasanaeth, yn cael ei gofnodi mewn arddull sy'n hygyrch i'r defnyddiwr gwasanaeth; mae'r defnyddiwr gwasanaeth, pryd bynnag y mae'n gallu gwneud hynny a/neu ei gynrychiolydd (os oes un) yn cytuno â'r cynllun ac ei lofnodi.

SAFON 7: CADW COFNODION

Y CANLYNIAD :

Mae hawliau a lles y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diogelu drwy gadw cofnodion da.

Y SAFON:

7.1 Mae'r cartref yn cadw'r cofnodion sy'n ofynnol o dan y rheoliadau; ar gyfer diogelu'r defnyddwyr gwasanaeth ac ar gyfer rhedeg y busnes yn effeithiol ac yn effeithlon.

7.2 Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth gyfle i weld eu cofnodion a'r wybodaeth amdanynt sy'n cael ei dal gan y cartref, ac i helpu i gadw eu cofnodion personol eu hunain.

7.3 Mae cofnodion unigol a chofnodion y cartref yn ddiogel, yn gyfoes ac mewn trefn; maent yn cael eu llunio, eu cadw a'u defnyddio yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a gofynion cyfreithiol eraill.

ADRAN TRI: ANSAWDD BYWYD

SAFON 8: ANNIBYNIAETH A DEWIS

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael cymorth i arfer gwneud dewisiadau ac i arfer rheolaeth ar eu bywydau.

Y SAFON:

8.1 Mae'r person cofrestredig yn cynnal y cartref yn y fath fodd ag i uchafu gallu'r defnyddwyr gwasanaeth i fod yn annibynnol wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau personol.

8.2 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn trafod eu materion ariannol eu hunain gyhyd â'u bod am wneud hynny a chyhyd â'u bod yn abl ac yn gymwys i wneud hynny.

8.3 Rhoddir cymorth i'r defnyddwyr gwasanaeth a'u perthnasau a'u cyfeillion i gysylltu ag asiantau allanol (e.e. eiriolwyr) a fydd yn gweithredu er eu lles.

8.4 Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth hawl i ddod â'u heiddo personol gyda hwy. Cytunir ynghylch i ba raddau y byddant yn gallu gwneud hynny cyn iddynt gael eu derbyn.

8.5 Mae'r cyfle i gael gweld cofnodion personol, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998, yn cael ei hwyluso i'r defnyddwyr gwasanaeth.

SAFON 9: CYSYLLTIADAU A CHYFLEODD CYMDEITHASOL

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael bod eu dull o fyw yn y cartref yn cyd-fynd â'u disgwyliadau a'u dewisiadau, ac yn bodloni eu hanghenion a'u diddordebau cymdeithasol, diwylliannol, crefyddol ac adloniadol.

Y SAFON:

9.1 Mae'r cyfleoedd y trefnir iddynt fod ar gael iddynt ac arferion bywyd pob dydd yn hyblyg ac yn amrywiol i gydweddu â disgwyliadau, dewisiadau a galluoedd defnyddwyr gwasanaeth.

9.2 Mae'r person cofrestredig a'r staff yn gallu dangos eu hymrwymiad i ddysgu gydol oes a datblygu pob defnyddiwr gwasanaeth, ar sail eu dewisiadau unigol ac yn gysylltiedig â gweithredu eu cynllun gofal unigol.

9.3 Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth gyfle i wneud dewisiadau mewn perthynas â'r canlynol:

- gweithgareddau hamdden a gweithgareddau cymdeithasol a diddordebau diwylliannol
- bwyd, prydau ac amserau bwyd
- arferion bywyd pob dydd
- perthnasoedd personol a chymdeithasol
- defodau crefyddol.

9.4 Mae diddordebau'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cofnodi ac maent yn cael cyfleoedd i gael eu symbylu drwy weithgareddau hamdden ac adloniant yn y cartref a'r tu allan iddo sy'n cydweddu â'u hanghenion, eu dewisiadau a'u cyneddfau. Rhoddir ystyriaeth benodol i bobl sydd â gorffwylltra a namau gwybyddol eraill, y rhai â namau ar eu golwg, eu clyw neu namau ar y ddau synnwyr, a'r rhai ag anableddau corfforol neu anableddau dysgu.

9.5 Mae gwybodaeth gyfoes am weithgareddau yn cael ei dosbarthu i bob defnyddiwr gwasanaeth ar ffurf sy'n addas i'w gallu.

SAFON 10: CYSYLLTIADAU Â'R GYMUNED

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cadw cysylltiad â'u teulu, eu cyfeillion, eu cynrychiolwyr a'r gymuned leol i'r graddau y dymunant.

Y SAFON:

10.1 Mae modd l'r defnyddwyr gwasanaeth gael ymwelwyr ar unrhyw adeg resymol ac mae cysylltiadau â'r gymuned leol yn cael eu cadw a'u datblygu yn unol â dewisiadau'r defnyddwyr gwasanaeth.

10.2 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael derbyn ymwelwyr yn breifat.

10.3 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael dewis pwy i weld a phwy i beidio â gweld.

10.4 Fel rheol nid yw'r person cofrestredig yn gosod cyfyngiadau ar ymweliadau ac eithrio pan fydd y defnyddwyr gwasanaeth yn gofyn iddo wneud hynny, ac mae eu dymuniadau yn cael eu cofnodi. Rhaid rhoi ystyriaeth i les y preswylwyr eraill. Pan fydd cyfyngiadau yn cael eu gosod ar yr ymweliadau, rhaid eu cofnodi.

10.5 Rhoddir gwybodaeth ysgrifenedig am bolisi'r cartref ar gynnal ymglymiant perthnasau a chyfeillion â'u perthnasau sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth i berthnasau, cyfeillion a chynrychiolwyr y defnyddwyr gwasanaeth ar yr adeg pan fydd y defnyddwyr gwasanaeth yn symud i'r cartref.

10.6 Mae ymglymiant grwpiau cymunedol lleol â'r cartref yn unol â dewisiadau'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei annog.

SAFON 11: HAWLIAU

Y CANLYNIAD:

Mae hawliau cyfreithiol a dinesig y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu parchu a'u diogelu.

Y SAFON:

11.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod hawliau cyfreithiol a sifil y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diogelu, yn trefnu eu bod yn gallu arfer eu hawliau cyfreithiol yn uniongyrchol a chymryd rhan yn y broses ddinesig os dymunant.

11.2 Os nad yw'r defnyddwyr gwasanaeth yn gallu gwneud hynny, mae'r person cofrestredig yn hwyluso'r ffordd iddynt gael defnyddio gwasanaethau eiriol.

11.3 Mae hawliau'r defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan ym mhob agwedd ar y broses wleidyddol yn cael eu parchu, eu cynnal, a'u hwyluso yn ôl yr angen.

SAFON 12: CYFRINACHEDD

Y CANLYNIAD

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn gwybod bod gwybodaeth yn eu cylch yn cael ei thrin yn briodol ac y cedwir eu cyfrinachau.

Y SAFON:

12.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod staff yn parchu'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi iddynt yn gyfrinachol gan y defnyddwyr gwasanaeth a bod y staff yn trin gwybodaeth ynghylch y defnyddwyr gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig y cartref, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac yn unol â buddiannau gorau'r defnyddwyr gwasanaeth.

12.2 Mae rhyddid i'r defnyddwyr gwasanaeth weld polisïau a gweithdrefnau'r cartref ynghylch cyfrinachedd a delio â thor-cyfrinachedd, ac mae'r staff yn egluro a / neu'n sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn deall y polisi.

12.3 Mae cofnodion unigol y defnyddwyr gwasanaeth yn gywir, yn ddiogel ac yn gyfrinachol.

12.4 Mae staff yn gwybod o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid iddynt rannu gwybodaeth sy'n cael ei rhoi iddynt yn gyfrinachol gydag aelod hŷn o'r staff.

12.5 Mae gan y cartref gytundeb ysgrifenedig yngylch cyfrinachedd gyda'r holl asiantaethau cymdeithasol / iechyd sy'n darparu gwasanaethau i bobl sy'n byw yn y cartref ac mae'r cytundeb hwnnw yn nodi'r egwyddorion sy'n rheoli'r gallu i rannu gwybodaeth.

ADRAN PEDWAR: ANSAWDD GOFAL A THRINIAETH

SAFON 13: GOFAL CANOLRADD

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi'u hasesu ac wedi'u derbyn i gael gofal canolradd yn unig yn cael cymorth i uchafu eu hannibyniaeth a dychwelyd gartref. Nid yw defnydd o'r cartref ar gyfer gofal canolradd yn anffafriol i'r defnyddwyr gwasanaeth eraill.

Y SAFON:

13.1 Pan fydd y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu derbyn i gael gofal canolradd yn unig, mae gofal adfer byr-dymor yn cael ei ddarparu mewn modd sy'n effeithiol ar eu cyfer ac mewn modd nad sy'n amharu ar ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu i'r defnyddwyr gwasanaeth eraill.

13.2 Mae'r cyfleusterau adfer yn cael eu lleoli mewn man neilltuol ac yn cynnwys offer ar gyfer therapïau a thriniaeth, yn ogystal ag offer i hybu gweithgareddau bywyd pob dydd a symudedd.

13.3 Mae gofod dydd sy'n 4.1 metr sgwâr o leiaf yn cael ei ddarparu ac nid yw'n amharu ar y ddarpariaeth ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth sefydlog.

13.4 Mae'r staff wedi cymhwyso a/neu yn cael eu hyfforddi a'u goruchwyllo'n briodol i ddefnyddio technegau ar gyfer adsefydlu gan gynnwys rhaglenni triniaeth ac adferiad, hybu symudedd, cynhwyster a hunan-ofal a rhaglenni allanol i ailsefydlu'r person i fyw yn y gymuned.

13.5 Mae'r staff yn cael eu defnyddio, ac mae gwasanaethau arbenigol digonol yn cael eu darparu neu eu sicrhau gan broffesiynau perthnasol, gan gynnwys therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion sy'n ddigon hyfedr a medrus, i ddiwallu anghenion asesedig y defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael eu derbyn er mwyn eu hadsefydlu.

13.6 Nid yw'r defnyddiwr gwasanaeth sy'n cael ei leoli i gael gofal canolradd yn cael ei dderbyn ar gyfer gofal hir-dymor oni bai bod y gofynion ynghylch gwybodaeth, asesu a chynllunio gofal (Safonau 1, 2, 3 a 6) yn cael eu diwallu.

SAFON 14: GOFAL PERSONOL – PREIFATRWYDD AC URDDAS

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo eu bod yn cael eu trin â pharch a bod eu hawl i gael preifatrwydd yn cael ei hategu.

Y SAFON:

14.1 Mae'r trefniadau ar gyfer gofal iechyd a gofal personol yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu parchu bob amser.

14.2 Bydd preifatrwydd ac urddas y defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu parchu mewn perthynas â materion megis:

- rhoi gofal personol, gan gynnwys nyrsio, bathio, ymolchi, defnyddio'r toiled neu'r comôd;
- ymgynghori â phroffesiynolion iechyd a gofal cymdeithasol a chael archwiliad ganddynt;
- ymgynghori â chynghorwyr cyfreithiol ac ariannol;
- cadw cysylltiadau cymdeithasol â pherthnasau a chyfeillion;
- mynd i mewn i ystafelloedd gwely, toiledau ac ystafelloedd ymolchi;
- ar ôl marwolaeth.

14.3 Mae'n hawdd i'r defnyddwyr gwasanaeth fynd at ffôn i'w ddefnyddio'n breifat ac i gael eu post heb i neb fod wedi'i agor.

14.4 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn gwisgo eu dillad eu hunain bob amser.

14.5 Mae'r holl staff yn defnyddio'r dull o gyfarch sydd orau gan y defnyddiwr gwasanaeth.

14.6 Mae'r holl staff yn cael eu hyfforddi yn ystod rhaglen ymsefydlu ynghylch sut i drin y defnyddwyr gwasanaeth gyda pharch bob amser.

14.7 Mae archwiliadau a thriniaethau meddygol yn cael eu darparu yn ystafell y defnyddiwr gwasanaeth ei hun.

14.8 Mae sgrîn yn cael ei ddarparu pan fydd defnyddwyr gwasanaeth yn rhannu ystafell, ac mae'r staff yn sicrhau nad yw eu preifatrwydd mewn perygl pan fydd gofal personol yn cael ei roi neu ar unrhyw adeg arall.

SAFON 15: GOFAL IECHYD

Y CANLYNIAD:

Mae anghenion gofal iechyd y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diwallu'n llawn.

Y SAFON:

15.1 Mae'r person cofrestredig yn hybu a chynnal iechyd y defnyddwyr gwasanaeth ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfle i ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd i ddiwallu eu hanghenion asesedig.

15.2 Mae'r staff gofal yn sicrhau hylendid personol a geneuol pob defnyddiwr gwasanaeth a pha bryd bynnag y mae'n bosibl, yn cefnogi gallu'r defnyddiwr gwasanaeth i ofalu amdano'i hun.

15.3 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hasesu gan berson sydd wedi'i hyfforddi i wneud hynny er mwyn nodi'r defnyddwyr gwasanaeth hynny sydd wedi

magu, neu mewn perygl o fagu, anaf pwysedd ac mae ymyriad priodol yn cael ei gofnodi yn y cynllun gofal.

15.4 Mae mynychder anafiadau pwysedd, y driniaeth ar eu cyfer a'r canlyniad, yn cael eu cofnodi yng nghynllun gofal unigol y defnyddiwr gwasanaeth ac yn cael eu hadolygu yn barhaus.

15.5 Mae'r offer y mae ei angen er mwyn hybu hyfywdra meinweoedd ac atal anafiadau pwysedd neu eu trin yn cael ei ddarparu.

15.6 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod cyngor proffesiynol ynghylch asesu cynhwyster a'i hybu yn cael ei geisio a'i weithredu a bod y cymhorthion a'r offer y mae eu hangen yn cael eu darparu.

15.7 Mae iechyd seicolegol y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac mae gofal ataliol ac adferol yn cael ei ddarparu.

15.8 Rhoddir cyfleoedd ar gyfer ymarfer a gweithgareddau corfforol priodol; mae ymyriadau priodol yn cael eu cyflawni ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael eu nodi fel rhai sydd mewn perygl o gwmpo.

15.9 Ymgwymerir â sgrinio at ddibenion maethol pan fydd defnyddwyr yn y cael eu derbyn ac ar ôl hynny o bryd i'w gilydd; mae cofnod yn cael ei gadw o faethiad, gan gynnwys ennill neu golli pwysau, ac mae camau priodol yn cael eu cymryd.

15.10 Mae'r person cofrestredig yn galluogi'r defnyddwyr gwasanaeth i gofrestru gydag ymarferydd cyffredinol o'u dewis.

15.11 Mae'r person cofrestredig yn galluogi'r defnyddwyr gwasanaeth i gael defnyddio gwasanaethau a gofal meddygol, gwasanaethau nyrsio, gwasanaethau deintyddol, gwasanaethau fferyllol, gwasanaethau trin traed a gwasanaethau therapiwtig arbenigol gan ysbytai a gwasanaethau iechyd cymunedol yn ôl eu hangen.

15.12 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael cyfle i gael profion ar eu clyw a'u golwg a chymorth priodol, yn ôl eu hangen.

15.13 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod hawliau'r defnyddwyr gwasanaeth i gael gwasanaethau'r NHS yn cael eu hategu yn unol â chanllawiau a deddfwriaeth, drwy ddarparu gwybodaeth am eu hawliau a sicrhau eu bod yn cael cyfle i gael cyngor.

SAFON 16: PRYDAU AC AMSERAU BWYD

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael deiet iachus, atyniadol, cytbwys mewn amgylchedd sy'n ddymunol ac ar adegau sy'n gyfleus iddynt.

Y SAFON:

16.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn cael deiet amrywiol, atyniadol, iachus a maethlon sy'n addas i'w hanghenion sydd wedi'u hasesu a'u cofnodi ar eu cyfer, mewn lleoliad cydnaws ac ar adegau hyblyg.

16.2 Mae pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael tri phryd bwyd llawn bob dydd (y mae rhaid i ddau ohonynt o leiaf fod wedi'u coginio) bob pum awr ar y mwyaf yn ystod y dydd.

16.3 Fel rheol ni ddylai'r amser rhwng pryd bwyd yr hwyr a brecwast fod yn fwy na 14 awr. Dylai diodydd poeth ac oer a byrbrydau fod ar gael bob amser.

16.4 Mae'r bwyd, gan gynnwys prydau bwyd hylifedig, yn cael ei ddarparu mewn modd deniadol ac atyniadol o ran ei ansawdd, ei flas, a'i olwg, er mwyn cynnal archwaeth a maethiad.

16.5 Mae deietau/dognau therapiwtig arbennig yn cael eu darparu yn unol â chynghor staff gofal iechyd a staff deietegol, gan gynnwys darpariaeth ddigonol o galsiwm a fitamin D.

16.6 Darperir ar gyfer anghenion deietegol crefyddol neu ddiwylliannol fel y cytunir arnynt wrth i'r defnyddiwr gael ei dderbyn i'r cartref ac fe'u cofnodir yn y cynllun gofal; mae bwyd ar gyfer achlysuron arbennig ar gael.

16.7 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod yna fwydlen sy'n newid ac yn cynnig dewis o brydau bwyd ar ffurf ysgrifenedig neu ffurfiau eraill sy'n addas ar galluoedd yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae hon cael ei rhoi, ei darllen neu ei hesbonio i'r defnyddwyr gwasanaeth. Nid yw'r safon hon yn gymwys i gartrefi gyda thri phreswylwr neu lai.

16.8 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod amserau prydau bwyd yn rhai hamddenol a bod digon o amser yn cael ei roi i'r defnyddwyr gwasanaeth fwyta.

16.9 Mae'r staff yn barod i roi cymorth yn ôl yr angen i'r defnyddwyr wrth iddynt fwyta, a hynny'n gyfrinachgar, yn sensitif ac yn unigol; anogir y defnyddwyr i fwyta'n annibynnol gyhyd ag y bo hynny'n bosibl.

SAFON 17: MEDDYGINIAETH

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hamddiffyn gan bolisiau a gweithdrefnau'r cartref ar gyfer ymdrin â meddyginiaethau ac, os yw'n briodol, o fewn fframwaith rheoli risg cymdeithasol, maent yn gyfrifol am eu meddyginiaeth eu hunain.

Y SAFON:

17.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod yna bolisi a bod y staff yn glynu wrth y gweithdrefnau ar gyfer derbyn, cofnodi, storio, trafod, rhoi a gwaredu meddyginiaethau. Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn gallu ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu meddyginiaeth eu hunain os dymunant, o fewn fframwaith cadarn ar gyfer rheoli risgiau.

17.2 Yn dilyn asesiad ei fod yn gallu rhoi meddyginiaeth i'w hun, mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn gallu gwneud hynny. Mae'r defnyddwyr gwasanaeth sy'n rhoi meddyginiaeth i'w hunain yn cael gwneud hynny ar yr amod bod y staff yn cael archwilio, os yw'n angenrheidiol, y modd y mae'r feddyginiaeth yn cael ei chyflenwi a'i storio a'r dyddiad y daw'r feddyginiaeth i derfyn lle bo'r feddyginiaeth dan reolaeth y defnyddiwr gwasanaeth.

17.3 Mae meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol ac yn cael ei dychwelyd i'r fferylllydd pan nad oes angen mwyach amdani.

17.4 Mae cofnodion yn cael eu cadw o bob meddyginiaeth sy'n cael ei derbyn a'i rhoi, sy'n gadael y cartref neu sy'n cael ei gwaredu, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gamdrafod neu gronni meddyginiaeth. Mae cofnod yn cael ei gadw o'r feddyginiaeth gyfredol ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth (gan gynnwys y rhai sy'n rhoi meddyginiaeth i'w hunain).

17.5 Mae meddyginiaethau sydd o dan warchodaeth y cartref yn cael eu trafod yn ôl gofynion Deddf Meddyginiaethau 1968, canllawiau gan Gymdeithas Frenhinol y Fferyllwyr, a gofynion Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971.

17.6 Mae cyffuriau a reolir sy'n cael eu rhoi gan y cartref yn cael eu storio mewn cwpwrdd metel, sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau (Gwarchodaeth Ddiogel) 1973.

17.7 Pan fydd preswylwyr yn cael gofal nyrsio, mae pob meddyginiaeth, gan gynnwys Cyffuriau a Reolir, yn cael eu rhoi gan ymarferydd meddygol neu nyrs gofrestredig.

17.8 Pan na fydd y preswylwyr yn cael gofal nyrsio, ac na fyddant yn rhoi meddyginiaeth i'w hunain, mae pob meddyginiaeth, gan gynnwys Cyffuriau a Reolir, yn cael eu rhoi gan staff dynodedig sy'n cael eu hyfforddi'n briodol. Mae aelod staff dynodedig arall sydd wedi'i hyfforddi'n briodol yn dyst pan fydd Cyffuriau a Reolir yn cael eu rhoi. Rhaid i'r hyfforddiant ar gyfer staff gofal fod wedi'i achredu gan gorff cyfrifol a rhaid iddo gynnwys:

- gwybodaeth sylfaenol am sut mae meddyginiaethau yn cael eu defnyddio a sut i adnabod problemau wrth eu defnyddio ac ymdrin â hwy;
- yr egwyddorion y tu ôl i bob agwedd ar bolisi'r cartref ar drafod meddyginiaethau a chofnodion.

17.9 Mae derbyn, gweinyddu a gwaredu Cyffuriau a Reolir yn cael eu cofnodi mewn cofrestr o Gyffuriau a Reolir.

17.10 Mae'r person cofrestredig yn ceisio gwybodaeth a chynghor gan fferylllydd cymunedol ynghylch meddyginiaethau sy'n cael eu rhagnodi ar gyfer unigolion yn y cartref.

17.11 Mae'r staff yn monitro cyflwr defnyddiwr gwasanaeth sy'n cael meddyginiaethau ac yn galw'r ymarferydd cyffredinol i mewn os ydynt yn pryderu ynghylch unrhyw newid yn ei gyflwr a all fod yn ganlyniad i feddyginiaeth, ac maent yn peri bod y feddyginiaeth yn cael ei hadolygu yn rheolaidd.

17.12 Pan fydd defnyddiwr gwasanaeth yn marw, dylai'r meddyginiaethau gael eu cadw hyd oni fydd yn eglur a fydd cwêst yn cael ei gynnal.

SAFON 18: ARFERION GWEITHIO DIOGEL

Y CANLYNIAD:

Mae iechyd, diogelwch a lles y defnyddwyr gwasanaeth a'r staff yn cael eu hybu a'u gwarchod.

Y SAFON:

18.1 Mae'r person cofrestredig yn cymryd pob cam rhesymol i warchod a hybu iechyd, diogelwch a lles y defnyddwyr gwasanaeth a'r staff.

18.2 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau arferion gweithio diogel gan gynnwys :

- symud a thrafod: defnyddio technegau ar gyfer symud pobl a phethau sy'n osgoi niweidio'r defnyddwyr gwasanaeth neu'r staff;
- diogelwch tân: deall gweithdrefnau tân priodol a'u gweithredu;
- cymorth cyntaf: gwybodaeth am sut i ymdrin â damweiniau ac achosion brys iechyd; darparu blwch cymorth cyntaf a pherson â chymwysterau cymorth cyntaf ar bob adeg; a chofnodi pob achlysur pan ddarperir cymorth cyntaf. Ni fydd y gofyniad i sicrhau bod person cymorth cyntaf cymwysedig ar gael bob amser yn gymwys i gartrefi gyda thri phreswylwr neu lai.
- hylendid bwyd: storio a pharatoi bwyd yn gywir er mwyn osgoi gwenwyn bwyd, gan gynnwys labelu bwyd sydd wedi'i storio a'i ddyddio;
- rheoli heintiadau: deall a gweithredu mesurau i atal heintiadau a chlefydau trosglwyddadwy rhag ymledu.

18.3 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau iechyd a diogelwch y defnyddwyr gwasanaeth a'r staff gan gynnwys :

- storio a gwaredu sylweddau peryglus yn ddiogel;
- trin bwyleri a systemau gwresogi canolog yn rheolaidd o dan contract gan personau cymwys (megis aelodau o Gyngor Gosodwyr Nwy Cofrestredig (CORGI));
- cynnal systemau trydan ac offer trydan;
- rheoli tymheredd dŵr, ac atebion dylunio er mwyn lleihau'r risg o Legionella a risgiau yn sgil dŵr poeth ac arwynebau poeth (tymhereddau sy'n agos i 43 gradd C)
- os yw'n angenrheidiol ac yn seiliedig ar asesiad o ba mor agored i niwed yw'r defnyddwyr gwasanaeth a beth yw'r risg iddynt, darparu ataliadau ffenestri a'u cynnal ar y llawr cyntaf ac uwchlaw hynny;

- cadw amgylchedd diogel gan gynnwys offer cegin a pheiriannau golchdy; grisiau a llwybrau allanol; offer garddio;
- diogelwch y safle;
- diogelwch y defnyddwyr gwasanaeth ar sail asesiad o ba mor agored ydynt i niwed.

18.4 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau cydymffurfedd â'r ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992
- Rheoliadau Darparu a Defnyddio Offer Gwaith 1992
- Rheoliadau Trydan mewn Gwaith 1989
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) 1988
- Rheoliadau Gweithrediadau Trafod â Llaw 1992
- Rheoliadau Adrodd Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 1985

18.5 Mae'r person cofrestredig yn darparu datganiad ysgrifenedig ynghylch y polisi a'r trefniadau ar gyfer cynnal arferion gweithio diogel.

18.6 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer pob pwnc ynghylch arferion gweithio diogel a bod casgliadau sylweddol yr asesiad risg yn cael eu cofnodi.

18.7 Mae pob damwain, anaf a digwyddiad o ran salwch neu glefyd trosglwyddadwy yn cael ei gofnodi a'i adrodd yn unol â rheoliad 38.

18.8 Mae gweithdrefnau diogelwch yn cael eu arddangos, a'u hesbonio, ar ffurfiau sy'n hawdd eu deall ac sy'n cymryd i ystyriaeth anghenion cyfathrebu arbennig y defnyddwyr gwasanaeth.

18.9 Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant ymsefydlu a hyfforddiant sylfaen a diweddariadau i fodloni manyleb SHGCP (TOPSS) ar bob pwnc ynghylch arferion gweithio diogel (gweler Hyfforddiant Staff, Safon (23)).

SAFON 19: MARW A MARWOLAETH

Y CANLYNIAD:

Mae o les i'r defnyddwyr gwasanaeth gael gwybod y bydd y staff yn eu trin hwy a'u teulu â gofal, sensitifrydd a pharch adeg eu marwolaeth.

Y SAFON:

19.1 Mae gofal a chysur yn cael eu rhoi i'r defnyddwyr gwasanaeth sy'n marw, mae eu marwolaeth yn cael ei thrin ag urddas a phriodoldeb, ac mae eu hanghenion, eu defodau a'u swyddogaethau ysbrydol yn cael eu nodi.

19.2 Mae'r staff gofal yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y defnyddiwr gwasanaeth yn cael sylw a lleddfiad poen priodol.

19.3 Mae dymuniadau'r defnyddiwr gwasanaeth ynghylch gofal terfynol a'r trefniadau ar ôl marwolaeth yn cael eu trafod gyda hwy, yn cael eu cofnodi yn y cynllun gofal ac yn cael eu parchu, pa bryd bynnag y mae'n bosibl.

19.4 Mae gan deulu a chyfeillion y defnyddiwr gwasanaeth ran, os dyna yw dymuniad y defnyddiwr gwasanaeth, yng ngwaith cynllunio ar gyfer llesgedd cynyddol, salwch terfynol a marwolaeth y defnyddiwr gwasanaeth ac ymdrin â hwy.

19.5 Cedwir preifatrwydd ac urddas y defnyddiwr gwasanaeth sy'n marw bob amser.

19.6 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn gallu treulio eu diwrnodau olaf yn eu hystafelloedd eu hunain, â'u heiddo personol o'u hamgylch, oni bai fod rhesymau meddygol anorchfygol sy'n atal hynny rhag digwydd.

19.7 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod y staff a'r defnyddwyr gwasanaeth sy'n dymuno cysuro defnyddiwr gwasanaeth sy'n marw yn cael eu galluogi a'u cefnogi i wneud hynny.

19.8 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod cyngor arbenigol ar gael i'r staff er mwyn darparu gofal lliniarol effeithiol. Dylai cwnsela ar gyfer galar, sy'n cael ei ddarparu gan broffesiynolion sydd wedi'u hyfforddi neu asiantaethau arbenigol, fod ar gael hefyd i'r defnyddiwr gwasanaeth os yw'n gofyn amdano.

19.9 Mae anghenion cyfnewidiol defnyddwyr gwasanaeth y mae eu cyflwr yn dirywio neu sy'n gwallgofi – o ran cymorth personol neu gymhorthion technegol – yn cael eu hadolygu a'u diwallu'n gyflym i sicrhau bod yr unigolyn yn cadw rheolaeth i'r graddau uchaf posibl.

19.10 Mae perthnasau a chyfeillion defnyddiwr gwasanaeth sy'n marw yn gallu aros gydag ef/gyda hi, oni bai fod y defnyddiwr gwasanaeth yn egluro nad yw am iddynt wneud hynny, mor hir ag y dymunant.

19.11 Mae corff defnyddiwr gwasanaeth sydd wedi marw yn cael ei drafod gydag urddas. Mae amser yn cael ei ganiatáu i'r teulu a chyfeillion dalu teyrnged.

19.12 Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer trafod marw a marwolaeth wedi'u sefydlu ac mae'r staff sydd wedi'u hyfforddi i'w gweithredu yn glynu wrthynt.

ADRAN PUMP: STAFFIO

SAFON 20: LEFELAU STAFFIO

Y CANLYNIAD:

Mae anghenion y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diwallu drwy'r nifer o staff a'r cymysgedd o'u medrau.

Y SAFON:

20.1 Mae'r nifer o staff a chymysgedd medrau staff cymwysedig/anghymwysedig yn briodol bob amser i anghenion asesedig y defnyddwyr gwasanaeth, ac i faint, cynllun a diben y cartref.

20.2 Mae cylchrestr staff ysgrifenedig yn cael ei chadw sy'n dangos pa staff sydd ar ddyletswydd ar unrhyw bryd yn ystod y dydd a'r nos a pha swydd y byddant yn ei chyflawni.

20.3 Mae'r nifer o staff a'r cymysgedd o'u medrau yn unol ag unrhyw amod cofrestru ynghylch staffio. Datblygir y lefel staffio gan roi sylw i amgylchiadau unigol yn y cartref, gan gynnwys ei nodau a'i amcanion, y nifer o breswylwyr sy'n bresennol, eu hanghenion asesedig, a chynllun a chyfleusterau'r cartref.

20.4 Mae'r staff sy'n cael eu gadael i ofalu am y cartref yn 21 oed o leiaf. Fel rheol, mae'r staff sy'n darparu gofal personol i'r defnyddwyr gwasanaeth yn 18 oed o leiaf. Fodd bynnag, gall personau 17 oed sydd dan hyfforddiant ac sy'n weithwyr uwchrifol, weithio ar sail un-wrth-un ar yr amod eu bod yn cael eu harolygu'n briodol gan weithiwr gofal sy'n oedolyn hyd oni fyddant yn 18 oed; ni allant ddarparu gofal personol ac eithrio gyda chydysniad y defnyddiwr gwasanaeth.

20.5 Mae digon o staff yn cael eu cyflogi i sicrhau bod safonau ynglŷn â bwyd, prydau a maethiad yn cael eu bodloni'n llawn, a bod y cartref yn cael ei gadw'n lân ac yn hylan, yn rhydd rhag baw ac aroglau annifyr.

SAFON 21: CYMWYSTERAU STAFF

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth mewn dwylo diogel ar bob adeg.

Y SAFON:

21.1 Erbyn 1 Ebrill 2005, bydd gan o leiaf 50% o'r staff gofal gymhwyster lefel 2 NVQ mewn gofal, neu gymhwyster tebyg sy'n cael ei gydnabod gan Gyngor Gofal Cymru neu gymhwyster uwch mewn gofal.

21.2 Mae'r holl staff asiantaeth sy'n gweithio yn y cartref yn cael eu cynnwys wrth gyfrifo'r 50%.

21.3 Nid yw'r cyfrifiad yn cynnwys y rheolwr nac unrhyw reolwr gofal, a, mewn cartrefi sy'n darparu gofal nyrsio, nid yw'n cynnwys yr aelodau hynny o'r staff gofal sy'n nyrsys cofrestredig.

21.4 Mae hyfforddeion (gan gynnwys yr holl staff o dan 18 oed) wedi'u cofrestru o fewn tri mis o ddechrau gweithio ar raglen hyfforddiant sy'n arwain at y cymhwyster priodol y cyfeirir ato yn 21.1.

SAFON 22: RECRIWTIO

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn gan bolisi ac arferion recriwtio'r cartref.

Y SAFON:

22.1 Mae gan y cartref bolisiâu recriwtio cadarn ac mae'n gweithredu yn unol â gweithdrefn recriwtio fanwl-gywir sydd wedi'i seilio ar gyfleoedd cyfartal ac ar sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hamddiffyn.

22.2 Mae dau eirida ysgrifenedig yn cael eu sicrhau cyn bod penodiad yn cael ei wneud, ac mae unrhyw fylchau mewn cofnodion cyflogi yn cael eu harchwilio. Mae'r cais am eirida ysgrifenedig ar ffurf ymholiad strwythuredig sy'n gysylltiedig â'r gofynion ar gyfer y swydd. Dylid gofyn am eirida oddi wrth gyflogwr presennol neu gyflogwr mwyaf diweddar y ceisydd. Dylid dilyn geirida drwy ffonio'r cyflogwr yn ôl yr angen.

22.3 Mae staff newydd yn cael eu cadarnhau yn eu swyddi dim ond os yw'r wybodaeth sy'n angerheidiol o dan reoliad 19 ar gael yn eu cylch (gan gynnwys tystysgrifau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol). Hefyd, dylid cadarnhau eu bod wedi eu cofrestru gyda Chyngor Canolog y Deyrnas Unedig ar gyfer nyrsio (UKCC) neu gyda Chyngor Gofal Cymru, fel sy'n briodol.

22.4 Mae'r staff yn cael eu cyflogi mewn perthynas ag unrhyw godau ymddygiad a'r arferion sy'n cael eu cyhoeddi gan Gyngor Gofal Cymru ac maent yn cael copïau o unrhyw godau.

- 22.5 Mae'r holl staff yn cael datganiadau o delerau ac amodau eu cyflogaeth.
- 22.6 Mae pob penodiad staff yn dibynnu ar gyfnod prawf.

SAFON 23: HYFFORDDI'R STAFF

Y CANLYNIAD:

Mae'r staff yn cael eu hyfforddi ar gyfer y gwaith y maent yn ei wneud ac y maent yn gymwys i'w wneud.

Y SAFON:

23.1 Mae rhaglen hyfforddi a datblygu staff y cartref yn sicrhau bod y staff yn bodloni nodau'r cartref ac yn diwallu anghenion cyfnewidiol y defnyddwyr gwasanaeth ac yn dwyn i ystyriaeth unrhyw ganllawiau perthnasol oddi wrth Gyngor Gofal Cymru.

23.2 Mae pob aelod staff yn dechrau eu rhaglen hyfforddiant ymsefydlu ar ddiwrnod cyntaf eu cyflogaeth, ac fe'u hasesir erbyn ddiwedd deuddegfed wythnos eu cyflogaeth. Dylai'r rhaglen ddwyn i ystyriaeth unrhyw ganllawiau ynghylch hyfforddiant ymsefydlu a gyhoeddir gan Gyngor Gofal Cymru. Dylai gynnwys hyfforddiant ynghylch egwyddorion gofal, arferion gweithio diogel, rôl y corff a'r gweithiwr, profiadau ac anghenion penodol y grŵp defnyddwyr gwasanaeth, a dylanwadau a gofynion penodol y sefydliad gwasanaeth. Ar ôl iddynt gwblhau eu hyfforddiant ymsefydlu, os nad oes gan aelod staff y cymhwyster cydnabyddedig (gweler safon 21.1) mae ef neu hi yn cael eu cofrestru i gael y cymhwyster hwn ac yn dechrau ar eu hyfforddiant.

23.3 Mae'r holl staff yn cael o leiaf bum diwrnod o hyfforddiant y flwyddyn (gan gynnwys hyfforddiant mewnl) gyda thâl, ac mae ganddynt erbyn 1 Ebrill 2003 gynllun hyfforddi a datblygu unigol sydd wedi'i seilio ar asesiad o'u hanghenion.

SAFON 24: GORUCHWYLIO'R STAFF

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn elwa ar staff sy'n cael eu goruchwyllo'n briodol.

Y SAFON:

24.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod yr holl staff yn y cartref yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd ac yn effeithiol.

24.2 Mae amser yn cael ei neilltuo ar gyfer goruchwyllo staff, mae'n cael ei wneud ar sail un-wrth-un, ac yn cael ei gofnodi'n ffurfiol.

24.3 Mae'r staff gofal yn cael goruchwyliaeth ffurfiol o leiaf unwaith bob deufis.

24.4 Mae'r oruchwyliaeth yn cynnwys:

- pob agwedd ar arferion;
- yr athroniaeth ofal yn y cartref;
- anghenion datblygu gyrfa.

24.4 Mae'r holl staff eraill yn cael eu goruchwyllo'n barhaus fel rhan o'r broses reoli arferol.

24.5 Mae'r holl staff yn cael gwerthusiad staff blynyddol, sy'n adolygu eu gwaith dros y flwyddyn flaenorol ac yn nodi eu hanghenion hyfforddi a datblygu.

SAFON 25: GWIRFODDOLWYR

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn elwa, yn ôl eu dewis ac yn y ffordd y maent yn ei ddewis, ar ymglymiant gwirfoddolwyr.

Y SAFON:

25.1 Mae'r cartref yn sicrhau bod cyfraniad y gwirfoddolwyr yn ychwanegu at rolau'r staff cyflogedig ac yn eu hategu er lles y defnyddwyr gwasanaeth.

25.2 Mae rôl a chyfrifoldeb pob gwirfoddolwr yn cael eu nodi mewn cytundeb ysgrifenedig, ac mae'r rôl hwn yn cael ei deall yn glir gan y defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u cyfeillion, a'r staff.

25.3 Nid yw gwirfoddolwyr byth yn ymgymryd â thasgau sy'n gyfrifoldeb y staff cyflogedig.

25.4 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnwys wrth benderfynu a yw'r cartref am weithio gyda gwirfoddolwyr ac ym mha ffordd y maent am wneud hynny.

25.5 Mae'r broses recriwtio a dethol ar gyfer gwirfoddolwyr yr un mor fanwl ag ar gyfer staff cyflogedig.

25.6 Mae'r gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant, goruchwyliaeth a chymorth sy'n briodol i'w rôl.

ADRAN CHWECH: CYNNAL A RHEOLI'R CARTREF

SAFON 26: Y RHEOLWR Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn byw mewn cartref sy'n cael ei reoli gan berson sy'n addas i ofalu amdano, sydd o gymeriad da ac yn hollol abl i gyflawni ei gyfrifoldebau.

Y SAFON:

26.1 Mae'r rheolwr yn gymwysedig, yn hyfedr ac yn brofiadol i redeg y cartref ac i fodloni ei ddiben, ei nodau a'i amcanion datganedig.

26.2 Mae gan y rheolwr o leiaf ddwy flynedd o brofiad o reoli sefydliad gofal perthnasol mewn swydd reoli uwch o fewn y pum mlynedd diwethaf;

ac, erbyn 1 Ebrill 2005, mae gan y rheolwr lefel 4 NVQ mewn gofal, gymhwyster cymwys mewn gwaith cymdeithasol, cymhwyster lefel 4 NVQ mewn rheoli gofal neu gymhwyster tebyg sy'n cael ei gydnabod gan Gyngor Gofal Cymru;

Neu, mae'r rheolwr yn nyrs gofrestredig ar y lefel gyntaf ac erbyn 1 Ebrill 2005 mae'n meddu ar gymhwyster lefel 4 NVQ mewn rheoli gofal neu gymhwyster tebyg sy'n cael ei gydnabod gan Gyngor Gofal Cymru.

26.3 Mae'r rheolwr yn gyfrifol am ddim mwy nag un sefydliad cofrestredig, oni bai fod dau sefydliad yn gallu cael eu rheoli'n briodol heb gyfaddawdu ar safon y gofal sy'n cael ei ddarparu.

26.4 Mae'r rheolwr yn gallu dangos ei fod wedi ymgymryd â hyfforddiant o bryd i'w gilydd i ddiweddarau ei wybodaeth, ei fedrau a'i hyfedredd wrth reoli'r cartref.

26.5 Mae'r rheolwr a'r staff hŷn eraill yn gyfarwydd ag anghenion corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac ysbrydol pobl hŷn, ac â'r amodau a'r clefydau sy'n gysylltiedig â henaint.

26.6 Mae swydd-ddisgrifiad y rheolwr yn ei alluogi i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gyflawni'r dyletswyddau hyn.

26.7 Mae yna linellau atebolrwydd clir yn y cartref a chydag unrhyw reolwyr allanol.

SAFON 27: ETHOS

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn elwa ar ethos ac arweiniad y cartref a'i ymagwedd at reoli.

Y SAFON:

27.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod ymagwedd y cartref at reoli yn creu awyrgylch agored, cadarnhaol, cynhwysol ac un sy'n galluogi pobl.

27.2 Mae'r person cofrestredig yn cyfleu synnwyr clir o gyfeiriad ac arweiniad y mae'r staff a'r defnyddwyr gwasanaeth yn ei ddeall ac y gallant ei gysylltu â nodau a diben y cartref.

27.3 Mae gan y person cofrestredig strategaethau ar gyfer galluogi'r staff, y defnyddwyr gwasanaeth a'r budd-ddeiliaid eraill i effeithio ar y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno a'i wella.

27.4 Mae prosesau rheoli a rhedeg y cartref yn agored ac yn dryloyw.

27.5 Mae cynlluniau ac arferion rheoli yn hybu arloesi, creadigedd a datblygu.

27.6 Mae ymrwymiad yn cael ei wneud i gyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth yn y corff.

27.7 Mae'r person cofrestredig yn dwyn i ystyriaeth unrhyw God Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr a gyhoeddwyd gan Gyngor Gofal Cymru.

SAFON 28: SICRWYDD ANSAWDD

Y CANLYNIAD:

Gall y defnyddwyr gwasanaeth fod yn sicr bod y cartref yn ymatebol i'w dymuniadau, ac yn cael ei redeg er eu lles hwy.

Y SAFON:

28.1 Mae systemau sicrwydd ansawdd a monitro ansawdd effeithiol, sydd wedi'u seilio ar geisio barn y defnyddwyr gwasanaeth, ac wedi'u sefydlu i fesur llwyddiant y cartref o ran bodloni ei nodau, ei amcanion a'i ddatganiad o ddiben.

28.2 Mae yna gynllun datblygu blynyddol ar gyfer y cartref, ar sail cylch cynllunio systematig – gweithredu – adolygu, sy'n adlewyrchu'r nodau a'r canlyniadau ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth.

28.3 Mae gan y cartref raglen hunan fonitro a hunanwelliant barhaus, ar sail adborth yr eir ati i'w geisio oddi wrth y defnyddwyr gwasanaeth ynghylch y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Gofynnir am yr adborth hwn drwy'r cyfrwng mwyaf addas yn y cartref (a all gynnwys holiaduron bodlonrwydd defnyddwyr dienw, a thrafodaeth gydag unigolion ac mewn grwpiau) a bydd tystiolaeth glir o hyn. Bydd yr archwiliad mewnol hwn yn cael ei gynnal o leiaf unwaith bob blwyddyn.

28.4 Gofynnir am farn y teulu a chyfeillion a budd-ddeiliaid yn y gymuned (megis ymarferwyr cyffredinol, athrawon, y meddyg traed, a staff mudiadau gwirfoddol) ynghylch sut y mae'r cartref yn diwallu anghenion a dewisiadau'r defnyddwyr gwasanaeth.

28.5 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael gwybod am archwiliadau ASGC sydd ar y gweill ac maent yn cael cyfle i siarad â'r arolygwyr. Trefnir bod barn y defnyddwyr gwasanaeth ar gael i arolygwyr ASGC ei chynnwys mewn adroddiadau archwilio.

28.6 Mae polisïau, gweithdrefnau ac arferion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yng ngoleuni deddfwriaeth sy'n newid a chynghor ar arferion da oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdod iechyd, a chyrff arbenigol a phroffesiynol.

28.7 Mae cynnydd yn cael ei wneud ar gamau o fewn amserlenni y cytunir arnynt i weithredu'r gofynion sy'n cael eu nodi mewn adroddiadau archwilio ASGC.

SAFON 29: GWEITHDREFNAU ARIANNOL

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diogelu drwy'r gweithdrefnau ariannol yn y cartref, a thrwy ei hyfywdra parhaol.

Y SAFON:

29.1 Mae gweithdrefnau cyfrifo a gweithdrefnau ariannol addas yn cael eu mabwysiadu i sicrhau bod y cartref yn cael ei redeg yn effeithiol ac yn effeithlon a'i fod yn parhau i fod yn hyfyw yn ariannol.

29.2 Mae yswiriant ar gyfer asedau yn cael ei sicrhau yn erbyn colled neu niwed ac ar gyfer eu hamnewid fel newydd; bydd colledion oherwydd ymyriad â busnes yn cael eu hyswrio yn ogystal. Rhaid i'r yswiriant atebolrwydd ddiogelu atebolrwyddau cyfreithiol y cartref i'w gyflogaion, y defnyddwyr gwasanaeth a phersonau sy'n drydydd partïon hyd at derfyn indemniad sy'n gymesur â lefel a maint y gweithgareddau yr ymgwymerir â hwy neu hyd at leiafswm o £5 miliwn.

29.3 Mae cofnodion yn cael eu cadw o'r holl drafodion sy'n cael eu gwneud gan y person cofrestredig.

29.4 Mae yna gynllun busnes a chyllid ar gyfer y sefydliad, sy'n cael ei gadw yn y cartref a'i adolygu bob blwyddyn.

SAFON 31: ARIAN DEFNYDDWYR Y GWASANAETH

Y CANLYNIAD:

Mae buddiannau ariannol y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diogelu.

Y SAFON:

30.1 Gall y person cofrestredig ddangos ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol i warchod buddiannau ariannol y defnyddwyr gwasanaeth.

30.2 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn rheoli eu harian eu hunain ac eithrio os ydynt yn dweud nad ydynt am wneud hynny neu os nad ydynt yn gallu gwneud hynny.

30.3 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod mesurau gwarchod wedi'u sefydlu i ddiogelu buddiannau ariannol y defnyddiwr gwasanaeth.

30.4 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod cofnodion ysgrifenedig o'r holl drafodion yn cael eu cadw.

30.5 Os yw'r cartref yn unol â rheoliad 20 yn trafod arian defnyddwyr gwasanaeth unigol, mae'r person cofrestredig yn sicrhau nad yw arian personol y defnyddwyr gwasanaeth hynny yn cael ei gronni – naill ai ynghyd ag arian y cartref, nac ag arian y preswylwyr eraill. Mae'r arian yn cael ei gadw ar wahân yn enw'r defnyddiwr gwasanaeth unigol ac yn cael ei wario yn unol â'i ddymuniad. Mae cofnodion a derbynebaw priodol yn cael eu cadw.

30.6 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau nad yw'r arian sy'n cael ei roi i'r cartref neu'n cael ei gasglu ar ei gyfer er lles y defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwariant arferol, a bod arian o'r fath yn cael ei gyfrifo ar wahân i gyfrifon incwm a gwariant eraill y cartref.

30.7 Dim ond pan nad oes unrhyw unigolyn priodol arall ar gael y gall aelod o'r staff gael ei benodi fel asiant neu person penodedig ar gyfer defnyddiwr gwasanaeth. Yn yr achos hwn, mae'r person cofrestredig yn sicrhau:

- bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cael ei hysbysu, fel sy'n angenrheidiol;
- bod cofnodion yn cael eu cadw o bob taliad sy'n dod i mewn ac yn mynd allan.

30.8 Mae'r cartref yn darparu cyfleusterau diogel ar gyfer cadw arian a phethau gwerthfawr yn ddiogel ar ran y defnyddiwr gwasanaeth.

30.9 Mae cofnodion, derbynebaw a gweithdrefnau cyfrifo yn cael eu cadw / cynnal ynglŷn ag eiddo sy'n cael ei drosglwyddo i'w gadw'n ddiogel.

ADRAN SAITH: PRYDERON, CŴYNION AC AMDDIFFYNIAD

SAFON 31: CŴYNION

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth a'u perthnasau a'u cyfeillion yn hyderus y bydd pobl yn gwrando ar eu cŵynion, yn eu cymryd o ddifrif ac yn gweithredu arnynt.

Y SAFON:

31.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod yna weithdrefn gŵynion syml, cadarn a hygyrch sy'n cynnwys y camau a'r amserlenni ar gyfer y broses, a bod cŵynion yn cael eu trin yn brydlon ac yn effeithlon.

31.2 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod gan y cartref weithdrefn gŵynion sy'n pennu sut y gellir gwneud cŵynion a phwy fydd yn ymdrin â hwy ynghyd â sicrwydd y byddant yn cael ymateb iddynt o fewn 28 diwrnod ar y mwyaf.

31.3 Mae cofnod yn cael ei gadw o bob cŵyn sy'n cael ei gwneud ac yn cynnwys manylion ymchwiliadau ac unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd.

31.4 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei darparu i bob defnyddiwr gwasanaeth i'w galluogi i wneud cŵyn i ASGC ar unrhyw bryd, os dyna yw dymuniad yr achwynydd.

SAFON 32: AMDDIFFYNIAD

Y CANLYNIAD

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth.

Y SAFON:

32.1 Gall y person cofrestredig ddangos ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu'r defnyddwyr gwasanaeth rhag camdriniaeth gorfforol, ariannol neu faterol, seicolegol neu rywiol, esgeulustra, camdriniaeth oherwydd camwahaniaethu neu hunan-niwed, triniaeth annynol neu ddiraddiol, drwy fwriad, esgeulustod neu anwybodaeth, yn unol â pholisïau ysgrifenedig.

32.2 Mae gweithdrefnau cadarn ar gyfer ymateb i amheuan neu dystiolaeth ynghylch cam-drin neu esgeuluso (gan gynnwys chwythu'r chwiban) yn sicrhau diogelwch ac amddiffyniad y defnyddwyr gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo pryderon i ASGC a chan ddwyn i ystyriaeth ganllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru – "Mewn Dwylo Diogel – Amddiffyn Oedolion Hawdd eu Niweidio yng Nghymru".

32.3 Dilyniir pob honiad o gamdriniaeth a digwyddiad o'r fath yn brydlon ac mae'r camau sy'n cael eu cymryd yn cael eu cofnodi.

32.4 Mae'r staff a all fod yn anaddas i weithio gydag oedolion sy'n hawdd eu niweidio yn cael eu cyfeirio, yn unol â'r Ddeddf Safonau Gofal, er mwyn ystyried eu cynnwys ar gofrestr Amddiffyn Oedolion Hawdd eu Niweidio.

32.5 Mae polisïau ac arferion y cartref yn sicrhau bod ymosodedd corfforol a/neu eiriol gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael ei ddeall ac yn cael sylw priodol, a dim ond fel dewis olaf y mae ymyriad corfforol yn cael ei defnyddio a hynny gan ddwyn i ystyriaeth ganllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

32.6 Mae polisïau ac arferion y cartref ynglŷn ag arian y defnyddwyr gwasanaeth a'u materion ariannol yn sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael gweld eu cofnodion ariannol personol; bod eu harian a'u pethau gwerthfawr yn cael eu storio'n ddiogel; y gall y staff yn ymgynghori'n breifat â hwy ynglŷn â'u harian, a'u bod yn cael cyngor ar yswiriant personol. Maent yn atal y staff rhag cael rhan yng ngwaith gwneud ewyllysiau i'r defnyddwyr gwasanaeth.

ADRAN WYTH: YR AMGYLCHEDD FFISEGOL

SAFON 33: Y SAFLE

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn byw mewn amgylchedd diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw yn dda.

Y SAFON:

33.1 Mae lleoliad a chynllun y cartref yn addas at ei ddibenion datganedig; mae'n hygyrch, yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda; mae'n diwallu anghenion unigol y defnyddwyr gwasanaeth a'u cydanghenion mewn ffordd gysurus a chartrefol ac mae wedi'i ddylunio drwy ddwyn i ystyriaeth ganllawiau perthnasol.

33.2 Mae rhaglen gwaith rheolaidd i gynnal-a-chadw ac adnewyddu'r adeiladwaith ac i addurno'r safle yn cael ei chynhyrchu a'i gweithredu ac mae cofnodion yn cael eu cadw.

33.3 Mae'r tiroedd yn cael eu cadw'n daclus, yn ddiogel, yn ddeniadol ac yn hygyrch i'r defnyddwyr gwasanaeth, ac yn caniatáu iddynt gael golau'r haul.

33.4 Mae'r adeilad yn cydymffurfio â gofynion y gwasanaeth tân lleol ac awdurdod iechyd yr amgylchedd.

33.5 Ni ddylid defnyddio camerâu CCTV y tu mewn i'r cartref a dim ond ar ddrysau allanol y dylid eu defnyddio.

SAFON 34: CYFLEUSTERAU A RENNIR

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael defnyddio cyfleusterau cyffredin mewnol ac allanol sy'n ddiogel a chysurus.

Y SAFON:

Ni fydd 34.1 – 34.6 yn gymwys i gartrefi presennol gyda thri phreswylwr neu lai.

34.1 Mae'r cartref yn darparu lle i eistedd, lle hamdden a lle i fwyta sy'n dod i gyfanswm o 4.1 metr sgwâr o leiaf ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth (5.1 metr sgwâr ar gyfer y rheini sy'n defnyddio cadair olwyn). Nid yw'r lle cyffredin hwn yn cynnwys llety preifat y defnyddwyr gwasanaeth na'r coridorau na'r cyntedd.

34.2 Mae lle cyffredin ar gael sy'n cynnwys:

- ystafelloedd lle gellir cynnal amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol; a lle gall y defnyddwyr gwasanaeth gyfarfod ag ymwelwyr yn breifat;
- ystafell fwyta neu ystafelloedd bwyta i ddarparu ar gyfer bob defnyddiwr gwasanaeth;
- ystafell fyw sy'n rhydd rhag mwg.

34.3 Mae yna le y tu allan ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth, sy'n hygyrch i'r rhai sydd mewn cadeiriau olwyn neu sydd â phroblemau symudedd eraill, gyda seddi, ac mae wedi'i ddylunio i ddiwallu anghenion bob defnyddiwr gwasanaeth gan gynnwys y rhai â nam corfforol, nam ar eu synhwyrâu a nam gwybyddol.

34.4 Os yw gofal canolradd yn cael ei ddarparu, mae lle neilltuol ar gael i'r grŵp gwasanaeth hwn.

34.5 Mae'r goleuadau mewn ystafelloedd cyffredin yn ddomestig eu natur, yn ddigon disglair ac wedi'u lleoli i hwyluso darllen a gweithgareddau eraill.

34.6 Mae celfi'r ystafelloedd cyffredin yn ddomestig eu natur ac o ansawdd dda, ac yn addas ar gyfer yr ystod o ddiddordebau a gweithgareddau sydd orau gan y defnyddwyr gwasanaeth.

SAFON 35: TAI BACH A CHYFLEUSTERAU YMOLCHI

Y CANLYNIAD:

Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth dai bach a chyfleusterau ymolchi digonol ac addas.

Y SAFON:

35.1 Mae cyfleusterau toiled a chyfleusterau ymolchi a bathio yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion y defnyddwyr gwasanaeth.

35.2 Mae yna doiledau hygyrch i'r defnyddwyr gwasanaeth, sydd wedi'u marcio'n glir, yn agos at y lolfâ a'r mannau bwyta. Ni fydd y safon i sicrhau bod toiledau'n cael eu marcio'n glir, a'u bod yn agos at y lolfâ a'r mannau bwyta, yn gymwys i gartrefi gyda thri phreswylwr neu lai.

35.3 - 35.7: Ni fydd y safonau hyn yn gymwys i gartrefi gyda thri phreswylwr neu lai.

35.3 Mae yna gymhareb o un baddon neu gawod â chymorth i wyth o ddefnyddwyr gwasanaeth. Pan fydd cyfleusterau bathio neu gyfleusterau cawod *en suite* sydd wedi'u haddasu'n briodol wedi'u darparu mewn ystafelloedd y defnyddwyr gwasanaeth, gellir peidio â chynnwys ystafelloedd y preswylwyr hyn yn y cyfrifiad hwn. Mae yna o leiaf un o bob math o gyfleuster ar bob llawr lle mae ystafelloedd gwely, ac eithrio llety *en suite*.

35.4 Mae yna gymhareb o o leiaf un toiled i bob pedwar defnyddiwr gwasanaeth. Mae cyfleusterau *en suite* wedi'u heithrio o'r cyfrifiad hwn. Mae gan bob defnyddiwr gwasanaeth doiled sy'n agos iawn i'w lety preifat.

35.5 Mae cyfleusterau *en suite*, sy'n cynnwys o leiaf toiled a basn llaw, yn cael eu darparu i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth mewn unrhyw adeiladau newydd ac estyniadau ac unrhyw gartrefi sy'n cael eu cofrestru am y tro cyntaf o 1 Ebrill 2002 ymlaen.

35.6 Dylai cyfleusterau *en suite* gael eu gosod yn ychwanegol at y safonau ar gyfer isafswm arwynebedd llawr defnyddiadwy mewn ystafell unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth.

35.7 Mae cyfleusterau *en suite* mewn ystafelloedd sy'n lletya defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu gymhorthion eraill yn hygyrch iddynt.

35.8 Mae cyfleusterau *en suite*, sy'n cynnwys o leiaf toiled a basn llaw, yn cael eu darparu ar gyfer yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth mewn unrhyw adeiladau newydd ac estyniadau. Dylai cyfleusterau *en suite* fod yn ychwanegol at y safonau ar gyfer isafswm yr arwynebedd llawr y gellir eidddefnyddio mewn ystafell unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth. Mae cyfleusterau *en suite* mewn ystafelloedd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu gymhorthion eraill yn hygyrch iddynt. **Nid yw'r safon hon yn gymwys i gartrefi presennol gyda thri phreswylwyr neu lai.**

35.9 Mae unrhyw olchfa sy'n cael ei darparu wedi'i lleoli ar wahân i gyfleusterau tai bach a chyfleusterau bathio'r defnyddwyr gwasanaeth ac maent ar gael ar bob llawr lle mae gofal nyrsio yn cael ei ddarparu. **Ni fydd y safon i sicrhau bod golchfeydd ar gael ar bob llawr lle mae gofal nyrsio yn cael ei ddarparu yn gymwys i gartrefi gyda thri phreswylwr neu lai.**

SAFON 36: ADDASIADAU AC OFFER

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael mynd at yr offer y mae arnynt ei angen i uchafu eu hannibyniaeth.

Y SAFON:

36.1 Gall y person cofrestredig ddangos ei fod yn darparu offer ac yn gwneud addasiadau sy'n mynd i'r afael ag anghenion asesedig y defnyddwyr gwasanaeth. **Nid yw'r safon hon yn gymwys i gartrefi gyda thri phreswylwyr neu lai.**

36.2 Mewn cartrefi gyda thri phreswylwr neu lai, gall y person cofrestredig ddangos eu bod yn darparu offer, er enghraifft canllawiau a thaclau codi ac offer arbenigol a'u bod yn addasu'r cartref er mwyn diwallu anghenion asesedig y defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn cael mynd i bob ran o'r lleoedd cyffredin a phreifat a ddarperir ar eu cyfer.

36.3 – 35.5: Nid yw'r safon hon yn gymwys i gartrefi gyda thri phreswylwyr neu lai.

36.3 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael mynd i bob rhan o leoedd cyffredin a phreifat y defnyddwyr gwasanaeth, drwy ddefnyddio'r esgynfeydd a'r lifftiau sydd wedi'u darparu, os bydd eu hangen i wneud hynny.

36.4 Mae'r cartref yn darparu canllawiau a chymhorthion eraill mewn coridorau, ystafelloedd ymolchi, toiledau, ac ystafelloedd cyffredin ac os oes angen yn llety'r defnyddwyr gwasanaeth eu hunain.

36.5 Mae cymhorthion, taclau codi a thoiledau a baddonau gyda chymorth wedi'u gosod sy'n gallu diwallu anghenion asesedig y defnyddwyr gwasanaeth.

36.6 Mae gan ddrysau i mewn i fannau cyffredin, ystafelloedd y defnyddwyr gwasanaeth, cyfleusterau bathio a chyfleusterau toiled a mannau eraill y mae ar y defnyddwyr gwasanaeth angen cadeiriau olwyn a chymorth wrth gerdded i fynd atynt, led agor clir o 800mm. **Ni fydd y safon hon yn gymwys i gartrefi presennol gyda thri phreswylwyr neu lai, ond bydd yn gymwys i gartrefi newydd ac estyniadau.**

36.7 Mae cyfleusterau (e.e. system ddolennau), ac arwyddion yn cael eu darparu i fodloni anghenion pob defnyddiwr gwasanaeth, gan gymryd i ystyriaeth eu hanghenion, er enghraifft, anghenion y rhai â nam ar eu clyw, nam ar eu golwg, namau ar y ddau synnwyr, anabledau dysgu neu orffwylltra neu nam gwybyddol arall, os bydd angen. **Ni fydd y safon hon yn gymwys i gartrefi gyda thri phreswylwyr neu lai.**

36.8 Mae mannau storio yn cael eu darparu ar gyfer cymhorthion ac offer, gan gynnwys cadeiriau olwyn. **Ni fydd y safon hon yn gymwys i gartrefi gyda thri phreswylwyr neu lai.**

36.9 Mae systemau galw yn cael eu darparu gyda chyfleuster larwm hygrych ym mhob ystafell. Mewn cartrefi gyda thri phreswylwyr neu lai, mae systemau galw priodol yn cael eu darparu mewn ystafelloedd yn unol ag anghenion asesedig y defnyddwyr gwasanaeth.

SAFON 37: LLETY UNIGOL – Y GOFYNIION ARWYNEBEDD

Y CANLYNIAD:

Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth ddigon o le yn eu hystafelloedd eu hunain i ddiwallu eu hanghenion.

Y SAFON:

37.1 Mae'r cartref yn darparu llety i bob defnyddiwr gwasanaeth, sy'n bodloni'r gofynion ynghylch isafswm lle. **Ni fydd y safon hon yn gymwys i gartrefi gyda thri phreswylwyr neu lai.**

37.2 O 1 Ebrill 2002 ymlaen, 100 troedfedd sgwâr (9.3 metr sgwâr), ac eithrio cyfleusterau *en suite*, fydd y safon o ran isafswm arwynebedd ar gyfer ystafelloedd

sengl sy'n cael eu defnyddio ar y pryd. **(Ni fydd y safon hon yn gymwys i gartrefi presennol gyda thri phreswylwr neu lai)**

37.3 O 1 Ebrill 2002 ymlaen, 12 metr sgwâr, ac eithrio cyfleusterau *en suite*, fydd y safon o ran isafswm arwynebedd mewn ystafelloedd sengl mewn cartrefi gofal newydd ac estyniadau i gartrefi sy'n bodoli eisoes.

37.4 O 1 Ebrill 2002 ymlaen, 12 metr sgwâr, ac eithrio cyfleusterau *en suite*, fydd y safon o ran isafswm arwynebedd mewn ystafelloedd sengl mewn cartrefi sy'n bodoli eisoes, i'w defnyddio gan breswylwyr y mae rhaid iddynt ddefnyddio cadair olwyn yn barhaol neu'n gyson oherwydd eu hanableddau corfforol difrifol. Ni fwriedir i hyn fod yn gymwys i ystafelloedd preswylwyr sy'n defnyddio cadeiriau olwyn weithiau neu ddim ond er mwyn cael eu trosglwyddo o amgylch y cartref. **(Ni fydd y safon hon yn gymwys i gartrefi gyda thri phreswylwr neu lai .)**

37.5 O 1 Ebrill 2002 ymlaen, 13.5 metr sgwâr, ac eithrio cyfleusterau *en suite*, fydd y safon o ran isafswm arwynebedd mewn ystafelloedd sengl mewn cartrefi gofal newydd ac estyniadau i gartrefi sy'n bodoli eisoes, i'w defnyddio gan breswylwyr y mae rhaid iddynt ddefnyddio cadair olwyn yn barhaol neu'n gyson oherwydd eu hanableddau corfforol difrifol. 800 mm fydd y safon ar gyfer isafswm lled drysau. Nid yw'r safonau hyn wedi'u bwriadu i fod yn gymwys i ystafelloedd preswylwyr sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn achlysurol neu ddim ond er mwyn cael eu trosglwyddo o amgylch y cartref.

37.6 O 1 Ebrill 2002 ymlaen, ni ddylid caniatáu i neb sydd wedi'i asesu fel rhywun sy'n debygol o fod angen cael ei drosglwyddo gyda chymorth o amgylch y cartref drwy ddefnyddio cadair olwyn gael ei symud i unrhyw ystafell oni bai bod trosglwyddiad diogel ac effeithiol yn bosibl sy'n bodloni eu hanghenion gofal.

37.7 Ac eithrio fel a nodir uchod, 760 mm fydd y safon ar gyfer isafswm lled drysau. **Ni fydd y safon hon yn gymwys i gartrefi gyda thri phreswylwr neu lai.**

37.8 Mae mesuriadau a chynllun ystafell yn sicrhau bod lle o boptu i'r gwely i ganiatáu i ofalwyr fynd yno ac ar gyfer unrhyw offer y mae ei angen.

37.9 Pan fydd ystafelloedd yn cael eu rhannu, maent yn cael eu meddiannu gan ddau ddefnyddiwr gwasanaeth ar y mwyaf ac a'r rheini wedi gwneud dewis pendant i rannu'r ystafell (ac wedi dewis gyda phwy i'w rhannu).

37.10 Pan ddaw lle a rennir yn wag, mae gan y defnyddiwr gwasanaeth sydd ar ôl gyfle i ddewis peidio â rhannu eto, drwy symud i ystafell wahanol os oes angen.

37.11 Mae gan ystafelloedd sy'n cael eu rhannu ar y pryd o leiaf 16 metr sgwâr o arwynebedd llawr defnyddiadwy, ac eithrio cyfleusterau *en suite*. **(Ni fydd y safon hon yn gymwys i gartrefi gyda thri phreswylwr neu lai .)**

37.12 Mewn adeiladau newydd, addasiadau, estyniadau ac yn achos pob cofrestrriad am y tro cyntaf, mae'r defnyddwyr gwasanaeth sydd am rannu llety yn cael cynnig dwy ystafell sengl i'w defnyddio, er enghraifft, fel ystafell wely ac ystafell fyw.

37.13 Bydd ystafelloedd sengl mewn cartrefi sy'n bodoli eisoes yn ffurfio o leiaf 70% o leoedd preswyl erbyn 1 Ebrill 2005, o leiaf 80% erbyn 2007, ac o leiaf 85% o leoedd

preswyl erbyn 2010. (Ni fydd y safon hon yn gymwys i gartrefi gyda thri phreswylwr neu lai.)

SAFON 38: LLETY UNIGOL – CELFI A FFITIADAU

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn byw mewn ystafelloedd diogel, cysurus â'u heiddo eu hunain o'u hamgylch.

Y SAFON:

38.1 Mae'r cartref yn darparu llety preifat i bob defnyddiwr gwasanaeth sydd wedi'i ddodrefnu i sicrhau cysur a phreifatrwydd, ac yn diwallu anghenion asesedig y defnyddiwr gwasanaeth.

38.2 Os na fydd y defnyddiwr gwasanaeth wedi'u darparu ei hun, darperir celfi ar gyfer ystafelloedd unigol yn ôl yr isafswm canlynol:

- gwely cyffyrddus glân, a'i led yn 900 mm o leiaf, ar uchder diogel sy'n addas i'r defnyddiwr gwasanaeth, a dillad gwely
- llenni neu fleindiau
- drych
- golau yn y nenfwd a golau wrth ochr y gwely
- seddi cyffyrddus i ddau berson
- droriau a lle caeedig ar gyfer hongian dillad
- o leiaf ddwy soced trydan dwbl hygyrch
- cabinet neu fwrdd wrth ochr y gwely
- byrddau i eistedd wrth eu hochr ac i'w defnyddio wrth ochr y gwely
- basn llaw ymolchi, oni bai bod toiled a basn llaw ymolchi *en suite* yn cael eu darparu.

Ni fydd y safon hon yn gymwys i gartrefi gyda thri phreswylwr neu lai.

38.3 Mae gwelyau priodol yn cael eu darparu ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael gofal nyrsio.

38.4 Mae yna garped neu orchudd cyfatebol ar lawr ystafell y defnyddiwr gwasanaeth.

38.5 Mae cloeau sy'n addas ar gyfer gallu'r defnyddwyr gwasanaeth ac yn hygyrch i'r staff mewn achos brys wedi'u ffitio ar ddrysau i lety preifat y defnyddwyr gwasanaeth.

38.6 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael allweddi oni bai bod eu hasesiad risg yn awgrymu fel arall.

38.7 Mae gan bob defnyddiwr gwasanaeth le storio cloadwy ar gyfer meddyginiaeth, arian a phethau gwerthfawr ac mae'n cael allwedd y gall ei chadw, oni bai bod y rheswm dros beidio â gwneud hynny wedi'i esbonio yn y cynllun gofal.

SAFON 39: GWRES, GOLAU A DŴR

Y CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn byw mewn amgylchedd diogel a chysurus.

Y SAFON:

39.1 Mae'r gwres, y golau, y cyflenwad dŵr a system awyru llety'r defnyddwyr gwasanaeth yn bodloni'r gofynion iechyd a diogelwch amgylcheddol perthnasol ac anghenion defnyddwyr gwasanaeth unigol.

39.2 Mae'r ystafelloedd yn cael eu hawyru'n unigol ac yn naturiol drwy ffenestri sy'n cydymffurfio â safonau cydnabyddedig.

39.3 Mewn adeiladau newydd, addasiadau ac estyniadau, mae uchder y ffenestr yn golygu bod y defnyddiwr gwasanaeth yn gallu edrych allan drwyddi pan fydd ar ei eistedd neu yn ei wely.

39.4 Mae pob ystafell, gan gynnwys ystafelloedd cyffredin, yn cael eu gwresogi â gwres canolog. Mae modd i'r defnyddiwr gwasanaeth reoli'r gwres yn ei ystafell ei hun.

39.5 Mae atalfeydd o flaen pibellau a rheiddiaduron ac mae gwarant bod y tymheredd ar eu hwynebau yn isel.

39.6 Mae'r goleuadau yn llety'r defnyddwyr gwasanaeth yn bodloni'r safonau cydnabyddedig (LUX 150), yn ddomestig eu natur, ac yn cynnwys golau lamp ar lefel bwrdd.

39.7 Mae golau brys yn cael ei ddarparu drwy'r cartref cyfan.

39.8 Mae dŵr yn cael ei storio ar dymheredd o 60 gradd Canradd o leiaf ac yn cael ei ddosbarthu ar 50 gradd Canradd o leiaf i atal risgiau oddi wrth Legionella. I atal risgiau drwy sgaldio, mae yna falfiau gosod o fath nad yw newidiadau mewn pwysedd dŵr yn effeithio arnynt wedi'u gosod ac y mae ganddynt ddyfeisiadau sydd wedi'u ffitio'n lleol i sicrhau na fyddant yn methu er mwyn darparu dŵr ar dymheredd heb fod yn fwy na 43 gradd Canradd.

SAFON 40: HYLENDID A RHEOLI HEINTIADAU

Y CANLYNIAD:

Profiad y defnyddwyr gwasanaeth yw bod eu cartref yn lân, yn braf ac yn hylan.

Y SAFON:

40.1 Mae'r safle cyfan yn cael ei gadw'n lân, yn hylan ac yn rhydd rhag aroglau ffaidd ac mae systemau wedi'u sefydlu i reoli heintiadau rhag ymledu, yn unol â deddfwriaeth berthnasol a chan ddwyn i ystyriaeth ganllawiau proffesiynol cyhoeddedig.

40.2 Nid yw eitemau a dillad budr a llieiniau heintiedig yn cael eu cludo drwy fannau lle mae bwyd yn cael ei storio, ei baratoi, ei goginio neu ei fwyta neu drwy fannau eraill a fyddai'n amharu ar y defnyddwyr gwasanaeth.

40.3 Mae cyfleusterau golchi dwylo yn cael eu lleoli'n amlwg mewn mannau lle mae deunyddiau heintiedig a/neu wastraff clinigol yn cael eu trafod.

40.4 Mae gorffeniadau lloriau golchfeydd yn anhydraidd ac mae modd glanhau'r rhain a gorffeniadau'r waliau yn rhwydd.

40.5 Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli heintiadau yn cynnwys trafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel; ymdrin â gollyngiadau; darparu dillad amddiffynnol a golchi dwylo.

40.6 Mae gan bob cartref gofal sy'n defnyddio comodau neu badelli gwely â chyflenwad digonol o gomodau a phadelli gwely er mwyn lleihau'r risg o draws-heintio rhwng y naill breswlydd a'r llall, ac mae gan pob cartref ddiheintydd golchfeydd neu weithdrefnau diheintio eraill er mwyn cynnal safonau hylendid a rheoli heintiau. **(Nid yw'r safon hon yn gymwys i gartrefi gyda thri phreswylwr neu lai.)**

40.7 Mae dillad brwnt yn cael eu golchi ar dymereddau priodol [65 gradd Canradd o leiaf am o leiaf 10 munud] i'w glanhau'n drylwyr a rheoli risg heintiadau.

40.8 Mae gan beiriannau golchi y gallu rhaglennu penodedig i fodloni safonau diheintio.

40.9 Mae gwasanaethau a chyfleusterau yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999.

